

**Eitem: 13**

**Teitl: Adroddiad / Dangosfwrdd Gweithlu**

<b>Gweithredu / Action required</b>	Adroddiad er gwybodaeth
<b>Amseru / Timing</b>	Arferol
<b>Argymhelliad / Recommendation</b>	Argymhellir bod y Bwrdd yn nodi'r adroddiad a'r dangosfwrdd amgaeedig
<b>Risg / Risk</b>	Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol i'r gweithlu yn ymwneud â'r papur hwn. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad a'r dangosfwrdd yn ymwneud â risgiau ehangach a fynegir yn rhwydwaith cofrestri risg Llais.
<b>Cyllid / Finance</b>	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol mewn perthynas â'r adroddiad hwn.
<b>Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective</b>	Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r amcan corfforaethol sy'n canolbwyntio ar sut yr ydym yn Tyfu a Gwella fel sefydliad.
<b>Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity &amp; Inclusion</b>	Bydd y Dangosfwrdd amgaeedig yn helpu i gefnogi mentrau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
<b>Cyfathrebu / Communications</b>	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: <b>Mewnol:</b> ein pobl <input checked="" type="checkbox"/> <b>Allanol:</b> ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input type="checkbox"/> <b>Allanol:</b> enw da ein sefydliad <input type="checkbox"/>
<b>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</b>	Joanne Bolton (Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol)
<b>Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions</b>	Mae'r Bwrdd yn ei gyfarfodydd a'i sesiynau datblygu wedi trafod datblygu dangosfwrdd gweithlu. Yn y dyfodol bydd y dangosfyrddau hefyd yn mynd i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth i'w trafod cyn eu hystyried gan y Bwrdd.
<b>Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting</b>	Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Dyddiad / Date</b>	25 Medi 2024

## Cefndir

Mae'r Bwrdd wedi gofyn am wybodaeth gryno am weithlu Llais. Mae Tîm Arwain yn gweld ac yn craffu ar y wybodaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gynhyrchu o leiaf bob chwarter i ddechrau a bydd yn helpu i hysbysu Tîm Arwain a'r tîm Pobl ynghylch unrhyw fentrau yr hoffent eu cyflwyno. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth at ddibenion sicrwydd.

## Manylion / Detail

### Dangosfwrdd

I gyd-fynd â'r papur clawr hwn mae fersiwn gyntaf dangosfwrdd y gweithlu. Mae'r wybodaeth sydd ynddo yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol 2023/24. Mae mewn fformat gweledol sy'n hawdd ei ddarllen. Dylai'r fformat helpu i dynnu sylw at feysydd sydd angen ffocws neu ystyriaeth ychwanegol.

Y penawdau allweddol yw:

- Trawsnewid gweithwyr a chynaliadwyedd y gweithlu
- Lle gwyh i weithio
- Iechyd a lles gweithwyr

Yn ogystal â graffiau a thablau allweddol, mae'r adroddiad yn cynnwys naratif ar yr hyn y mae'r siart yn ei ddweud wrthym, beth yw'r meysydd sy'n peri pryder a pha gamau/lliniariadau y dylem fod yn eu rhoi ar waith.

### Camau nesaf

Bydd y dangosfwrdd amgaeedig yn ffurfio ein data sylfaenol. Gellir cymharu adroddiadau yn y dyfodol â data sylfaenol i ddangos cynnydd. Bydd y Rheolwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol newydd, a fydd yn ymuno â Llais ym mis Hydref, yn gallu defnyddio'r data hwn i helpu i lywio mentrau yn y dyfodol.

Bydd Tîm Arwain yn derbyn y dangosfwrdd hwn o bryd i'w gilydd a bydd yn cael y cyfle i gyfrannu at, a bod yn atebol am fentrau gwella, a fydd yn cael eu hadrodd i bwyllgorau Llais a'r Bwrdd.

### Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn.